

Rhaglen Lywodraethu 2026-2030



Helo – mae gan Gymru lywodraeth newydd

Ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai 2026, ffurfiodd Plaid Cymru Lywodraeth newydd Cymru.

i Senedd — Senedd Cymru. Mae'n gwneud penderfyniadau ac yn creu deddfau am lawer o bethau yng Nghymru.

Rhun ap Iorwerth, Prif Weinidog Cymru, sy'n arwain y llywodraeth. ➡



Ein 100 diwrnod cyntaf



Yn ystod ein 100 diwrnod cyntaf, aethon ni ati'n syth i weithio ar y pethau sydd bwysicaf i bobl Cymru!



Gweledigaeth ar gyfer Cymru



- ➡ Rydyn ni am i Gymru fod yn genedl gref, hyderus sydd â gobeithion mawr am y dyfodol.
- ➡ Rydyn ni am i bobl yng Nghymru gael bywydau gwell a gwasanaethau cyhoeddus gwell.
- ➡ Rydyn ni am i bobl fyw bywydau iachach, gyda'r cymorth sydd ei angen arny'n nhw.
- ➡ Rydyn ni am gael economi gryfach gyda mwy o gyfleoedd.
- ➡ Rydyn ni am i bobl deimlo'n falch o'n diwylliant Cymreig a'r Gymraeg.
- ➡ Rydyn ni am i Gymru gael y cyllid a'r pwerau sydd eu hangen arni.
 - i** Gall Cymru wneud llawer o benderfyniadau, ond Llywodraeth y DU sy'n gwneud rhai ohonyn nhw.
- ➡ Rydyn ni am gael dyfodol tecach a gwyddach lle gall pobl a chymunedau wneud yn dda.

Mae cyfnod newydd yn dechrau i Gymru.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r hyn rydyn ni am ei wneud dros Gymru.

- ➡ **Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthy'ch chi beth fyddwn ni'n canolbwyntio arno dros y 4 blynedd nesaf! Mae gennym 6 phrif flaenoriaeth. Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud.**



1 Gwella gwasanaethau iechyd a gofal, a lleihau amseroedd aros

Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud.

>> Byddwn ni'n:

Gwneud yn siŵr bod gofal yn diwallu anghenion pobl

Rydyn ni am i bobl gael y cymorth cywir, yn y lle cywir ac mor agos at eu cartref â phosibl.

Rydyn ni hefyd am i bobl gael cymorth iechyd meddwl yn gynharach, gan gynnwys cymorth ar yr un diwrnod pan fydd ei angen.

Rydyn ni hefyd am gael gwell cymorth i bobl niwrowahanol a lleihau'r amser maen nhw'n aros am asesiadau.

i Niwrowahanol — pan fydd ymennydd rhywun yn gweithio mewn ffordd wahanol.

Lleihau rhestrau aros

Rydyn ni am i bobl gael profion a thriniaeth yn gynt.

Cefnogi staff iechyd a gofal

Rydyn ni am gael staff medrus a gwasanaethau da y gall pobl ymddiried ynddyn nhw. Rydyn ni hefyd am gael mwy o feddygon teulu a'i gwneud hi'n haws i bobl gael deintydd.

Gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol

Rydyn ni am i bobl allu byw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd â phosibl.

Cefnogi gofalcwyr di-dâl

Rydyn ni am gael gwell cymorth i ofalcwyr di-dâl, gan gynnwys pobl ifanc sy'n helpu i ofalu am rywun yn eu teulu.

Cadw plant ac oedolion yn ddiogel

Rydyn ni am i blant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu niweidio gael yr amddiffyniad a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw.



Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud.

>> Byddwn ni'n:

Gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy

Byddwn ni'n cyflwyno cynnig gofal plant newydd wedi'i ariannu ar gyfer plant rhwng 9 mis a 4 oed. Byddwn ni'n gweithio tuag at gynnig 20 awr o ofal plant wedi'i ariannu bob wythnos am 48 wythnos o'r flwyddyn.

Gall gofal plant da helpu rhieni i weithio, astudio neu ennill mwy o arian.

Gwneud cartrefi yn fwy fforddiadwy

Rydyn ni am i fwy o bobl gael cartref diogel, sicr a fforddiadwy. Byddwn ni'n cynyddu nifer y cartrefi cymdeithasol fel bod o leiaf 20,000 yn fwy erbyn 2030. Rydyn ni hefyd am gael hawliau ac amddiffyniadau cryfach i bobl sy'n rhentu eu cartrefi.

i Tai cymdeithasol — cartrefi y mae pobl yn eu rhentu gan gyngor neu gymdeithas dai. Maen nhw fel arfer yn costio llai na rhentu'n breifat.

Helpu gyda chostau bob dydd

Byddwn ni'n parhau i helpu gyda rhai costau bob dydd, fel:

- presgripsiynau am ddim
- prisiau bws rhatach
- mynediad am ddim i lefydd fel amgueddfeydd.

Helpu pobl i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw

Rydyn ni am i bobl gael cymorth ariannol pan fydd ei angen arnyn nhw. Rydyn ni hefyd am i fwy o benderfyniadau am fudd-daliadau a chymorth ariannol gael eu gwneud yng Nghymru — drwy system les Gymreig. Bydd hyn yn ein helpu i roi gwell cymorth i bobl.

Rheoli trethi'n deg

Rydyn ni am i drethi fod yn deg. Rydyn ni am i'r arian sy'n cael ei godi drwy drethi helpu i dalu am wasanaethau sydd eu hangen ar bobl yng Nghymru.

Byddwn ni'n edrych ar ffyrdd o wneud Treth y Cyngor yn decach ac ar sut y gallwn ddefnyddio trethi i gefnogi pethau fel prynu cartref a lleihau gwastraff.

i Trethi — nid Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar bob treth. Gall rhai penderfyniadau am drethi, fel Treth y Cyngor, gael eu gwneud yng Nghymru, ond Llywodraeth y DU sy'n gwneud llawer o'r penderfyniadau eraill.



3 Tyfu economi Cymru a chreu swyddi da sy'n talu'n dda

Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud.

>> Byddwn ni'n:

Defnyddio ein sgiliau, ein hamser a'n hadnoddau yn y ffordd orau

Gall hyn helpu busnesau i dyfu, creu swyddi a thalu mwy i bobl.

Cefnogi busnesau yng Nghymru

Byddwn ni'n helpu busnesau i dyfu, datblygu syniadau newydd a chreu swyddi sy'n talu'n dda.

Gwario mwy o arian gyda busnesau yng Nghymru

Rydyn ni am i sefydliadau a gwasanaethau yng Nghymru brynu mwy gan fusnesau yng Nghymru.

Cefnogi busnesau a chanol trefi a dinasoedd

Rydyn ni am i drefi a chanol dinasoedd ddatblygu a bod yn llefydd da i weithio, siopa a threulio amser.

Helpu cymunedau i fod yn berchen ar adeiladau a busnesau

Rydyn ni am ei gwneud hi'n haws i gymunedau brynu a rhedeg llefydd lleol.

Helpu pobl i gael y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw nawr ac yn y dyfodol

Rydyn ni am i hyfforddiant a phrentisiaethau helpu pobl i baratoi ar gyfer gwaith. Rydyn ni hefyd am i bobl ifanc gael cyfleoedd i fyw, astudio a gweithio yn Ewrop.

Gwella cysylltiadau digidol ledled Cymru

Rydyn ni am i bob cartref a busnes gael band eang cyflym iawn neu well.

Rydyn ni hefyd am i AI a thechnoleg newydd helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus a helpu busnesau i dyfu.

Gwella trafnidiaeth

Rydyn ni am i dtrafnidiaeth ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwaith, ysgol, coleg, gwasanaethau a gweithgareddau. Byddwn ni'n parhau i gynnig tocynnau bws sengl am £1 a thocynnau diwrnod am £3 i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 21 oed.

Cefnogi cymunedau gwledig

Byddwn ni'n cefnogi ffermio, pysgota, busnesau bwyd a chymunedau gwledig. Byddwn ni hefyd yn edrych ar ffyrdd o ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

Cynhyrchu mwy o ynni yng Nghymru ar gyfer Cymru

Rydyn ni am i Gymru gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy. Rydyn ni hefyd am i gymunedau fod yn berchen ar fwy o brosiectau ynni ac elwa o'r arian maen nhw'n ei wneud.

Gwneud i dwristiaeth weithio'n well i gymunedau

Rydyn ni am i dwristiaeth gefnogi swyddi lleol. Dylai hefyd ddathlu diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru.

Gwella cynllunio

Rydyn ni am i benderfyniadau cynllunio ddiwallu anghenion pobl, cymunedau a busnesau.



4 Gwella ysgolion a helpu pobl ifanc i ddysgu

Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud.

>> Byddwn ni'n:

Codi safonau mewn ysgolion

Rydyn ni am i blant a phobl ifanc adael addysg gyda sgiliau cryf. Byddwn ni'n gwella darllen, ysgrifennu a mathemateg. Byddwn ni hefyd yn gwneud y cwricwlwm ac asesiadau yn gliriach.

Cefnogi lles a dysgu disgyblion

i Lles — pa mor iach, hapus a diogel rydych chi'n teimlo.

Rydyn ni am i blant a phobl ifanc deimlo'n ddiogel, cael eu cefnogi a gallu dysgu. Byddwn ni'n helpu ysgolion a gwasanaethau eraill i weithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ifanc.

Byddwn ni hefyd yn gwella'r cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rhoi mwy o ddewisiadau i bobl ifanc

Rydyn ni am i bobl ifanc gael dewisiadau clir am beth gallan nhw ei wneud nesaf. Gallai hyn gynnwys coleg, prifysgol, prentisiaethau, hyfforddiant neu waith.

Helpu mwy o bobl ifanc i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Rydyn ni am i bob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus.

Byddwn ni'n rhoi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol.

Cefnogi athrawon a staff ysgolion

Rydyn ni am i addysgu fod yn yrfa sy'n cael ei pharchu a sy'n rhoi boddhad. Byddwn ni'n rhoi gwell hyfforddiant i athrawon a staff ysgolion, gan gynnwys hyfforddiant ar sut i gadw plant yn ddiogel.

Rydyn ni hefyd am iddyn nhw gael llai o lwyth gwaith a mwy o hyblygrwydd i gynllunio a pharatoi gwersi.

Helpu pobl ifanc i gadw'n ddiogel

Bydd pobl ifanc hefyd yn dysgu mwy am gadw'n ddiogel ar-lein a deall y wybodaeth maen nhw'n ei gweld yn y cyfryngau. Rydyn ni am i bobl ifanc wybod pan fydd rhywbeth o'i le, siarad amdano a chael help. Bydd athrawon a staff yn eu helpu i adnabod a rhoi gwybod am achosion o grŵmio.

i Grŵmio — pan fydd rhywun yn meithrin ymddiriedaeth gyda chi er mwyn gallu eich rheoli neu eich niweidio.





5 Mynd i'r afael â thlodi plant fel bod pob plentyn yn cael y dyfodol gorau posibl

Tlodi plant — pan nad oes gan deulu ddigon o arian ar gyfer y pethau sydd eu hangen ar blant, fel bwyd, cartref, dillad, gwres a gweithgareddau bob dydd.

Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud.

» Byddwn ni'n:

Lleihau tlodi plant

Byddwn ni'n datblygu cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi plant. Byddwn ni hefyd yn gofyn i Lywodraeth y DU wneud newidiadau i fudd-daliadau i helpu teuluoedd.

Rydyn ni am i bob plentyn allu dysgu, cymryd rhan a chyflawni ei botensial, beth bynnag yw incwm ei deulu.

Profi Taliad Plant newydd i Gymru

Rydyn ni am weld a all rhoi arian ychwanegol i deuluoedd bob wythnos helpu plant sy'n byw mewn tlodi.

Rydyn ni am brofi Cynnal, Taliad Plant i Gymru. Byddai'n rhoi arian ychwanegol bob wythnos i deuluoedd sydd â phlant ifanc ac sy'n cael Credyd Cynhwysol.

Credyd Cynhwysol — arian gan y llywodraeth i helpu pobl sydd ar incwm isel neu sydd ddim mewn gwaith.

Rhoi prydau ysgol am ddim i fwy o blant

Dydyn ni ddim am i blant a phobl ifanc golli cyfleoedd i ddysgu am eu bod yn llwglyd.

Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pob disgybl ym Mlynedd 7 i 11 o deuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol yn gallu cael prydau ysgol am ddim.

Helpu i greu cymdeithas deg a chyfartal

Rydyn ni am i bawb yng Nghymru gael eu trin yn deg a theimlo eu bod yn perthyn. Byddwn ni'n:

- gweithio i atal trais a cham-drin a chefnogi pobl sydd wedi cael eu heffeithio ganddyn nhw
- cefnogi hawliau pobl LGBTQ+
- cefnogi hawliau pobl anabl
- mynd i'r afael â hiliaeth
- cefnogi gwaharddiad ledled y DU ar therapi trosi
- cefnogi pobl sy'n dod i Gymru i ddechrau bywyd newydd mewn diogelwch.

LGBTQ+ — term am bobl sydd â gwahanol gyfeiriadeddau rhywiol neu hunaniaethau rhywedd.

Therapi trosi — ceisio newid neu atal rhywun rhag bod yn LGBTQ+.



6 Sefyll dros Gymru — gofyn i San Steffan fod yn deg ac yn barchus

i San Steffan — Llywodraeth a Senedd y DU yn Llundain. Maen nhw'n gwneud rhai penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys penderfyniadau am arian, budd-daliadau a rhai deddfau.

Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud.

>> Byddwn ni'n:

Gofyn i San Steffan am gyllid teg

Rydyn ni am i Gymru gael cyfran deg o arian gan Lywodraeth y DU.

Gofyn am fwy o bwerau i Gymru

Rydyn ni am i fwy o benderfyniadau am Gymru gael eu gwneud yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel trafnidiaeth, plismona, cyfiawnder, dŵr, ynni a lles.

Byddwn ni'n sefydlu Comisiwn Cenedlaethol i Gymru — grŵp a fydd yn helpu pobl i gael dweud eu dweud am ddyfodol Cymru.

Mae'r llywodraeth hefyd am i Gymru gael y pŵer i benderfynu sut y byddai unrhyw refferendwm annibyniaeth yn y dyfodol yn cael ei gynnal.

i Refferendwm annibyniaeth — pleidlais gyhoeddus ar a ddylai Cymru ddod yn wlad annibynnol, ar wahân i'r DU.

Gwneud y gorau o'n diwylliant, ein treftadaeth a'n chwaraeon

Rydyn ni am i fwy o bobl fwynhau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon. Gall y rhain hefyd gefnogi iechyd, cymunedau a'r Gymraeg.

Cryfhau lle Cymru yn y byd

Rydyn ni am i Gymru gael cysylltiadau cryf â gwledydd eraill a dod â mwy o ddigwyddiadau rhyngwladol mawr i Gymru. Mae hyn yn cynnwys Tour de France yn 2027 ac Euro (Pencampwriaeth Bêl-droed Ewrop) 2028.

Rydyn ni hefyd am weithio gyda gwledydd eraill, rhannu syniadau a dysgu o'r hyn maen nhw'n ei wneud yn dda. Gall hyn ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd gwell o wella bywyd yng Nghymru.

Gwneud i wasanaethau weithio'n well gyda'i gilydd

Rydyn ni am i wasanaethau a sefydliadau ledled Cymru weithio'n well gyda'i gilydd. Rydyn ni am iddyn nhw ganolbwyntio ar wella bywydau pobl nawr ac yn y dyfodol.





Cyflawni ein 6 blaenoriaeth – dod â newid go iawn i Gymru

Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud.

» Byddwn ni'n:

Helpu pobl i fyw bywydau iachach

Rydyn ni am helpu pobl i gadw'n iachach ac atal iechedd gwael cyn iddo ddechrau. Byddwn ni'n:

- gwella iechedd y cyhoedd
- gwneud iechedd a lles yn rhan o benderfyniadau ar draws y llywodraeth
- gweithio i atal a lleihau lledaeniad clefydau difrifol
- cefnogi pobl sy'n ddigartref
- defnyddio diwylliant, treftadaeth a chwaraeon i helpu pobl i gadw'n iach
- darparu rhaglen nofio a diogelwch dŵr i ysgolion.

Cefnogi'r Gymraeg

Rydyn ni am i bawb gael y cyfle i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg. Byddwn ni'n:

- gweithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- gweithio tuag at ddyblu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd
- helpu i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg.

Gweithredu ar newid hinsawdd a diogelu'r amgylchedd

Rydyn ni am ddiogelu natur a'r amgylchedd, a pharatoi Cymru ar gyfer newid hinsawdd. Byddwn ni'n:

- lleihau llygredd a gwastraff
- gwella ansawdd aer a dŵr
- helpu natur i adfer
- gweithio tuag at sero net erbyn 2040
- gosod targedau i helpu natur i adfer erbyn 2050
- helpu cymunedau i baratoi ar gyfer llifogydd a thywydd eithafol.

i Sero net — pan fyddwn ni'n lleihau'r llygredd sy'n achosi newid hinsawdd ac yn cydbwysu'r hyn sy'n weddill.

Gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n gweithio

Byddwn ni'n:

- gwirio bod ein cynlluniau'n gwella pethau
- gweithio gyda chynghorau, elusennau a sefydliadau eraill ledled Cymru.

Byddwn ni hefyd yn gwneud deddfau newydd pan fydd eu hangen.

Bydd hyn i gyd yn ein helpu i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu hon a chyrraedd ein nodau.

Diolch am ddarllen

Gallwch ddarllen y Rhaglen Lywodraethu lawn yma.

